**PWYLLGOR CRAFFU PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL**

Hysbysiad o Benderfyniad – Cyfarfod o Bell, 18 Hydref, 2023.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd J. Protheroe (Cadeirydd); Cynghorydd E. Goodjohn (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr G.D.D. Carroll, P. Drake, C.P. Franks, S.J. Haines, H.C. Hamilton, S.M. Hanks, Dr. I.J. Johnson, B. Loveluck-Edwards and N.J. Wood.

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr Burnett (Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet Berfformiad ac Adnoddau), W.A. Hennessy ac E. Williams (Aelod Cabinet dros Gofal Cymdeithasol ac Iechyd)

EITEM AGENDA 2. COFNODION –

ARGYMHELLWYD – BOD cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Medi 2023 yn cael eu cymeradwyo fel cofnod cywir yn amodol ar y diwygiad canlynol ar dudalen 356 ynghylch cofnod rhif 367, Cyhoeddi, a ddylai ddarllen fel a ganlyn:

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad canlynol: "Hoffwn atgoffa pawb sydd yma y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â’i recordio trwy’r rhyngrwyd a chaiff y recordiad hwn ei archifo i'w wylio yn y dyfodol"."

EITEM AGENDA 3. DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

EITEM AGENDA 4. CRYFHAU EIN CYMUNEDAU A GWAITH I DRECHU TLODI A'R ARGYFWNG COSTAU BYW PRESENNOL CAC) –

ARGYMHELLIR:

(1) NODI'R gwaith sy'n cael ei wneud o ran mynd i'r afael â thlodi a'r argyfwng costau byw, a'r dull arfaethedig ar gyfer adrodd yn y dyfodol ar waith ar drechu tlodi a'r costau byw, a oedd yn her hanfodol o fewn Cynllun Cyflawni Blynyddol 2023-24.

(2) CYMERADWYO'R dull a amlinellwyd yn yr adroddiad ar gyfer ymgysylltu ag ystod o randdeiliaid i benderfynu sut y gallai'r Cyngor weithio'n well gyda'r trydydd sector a mentrau cymdeithasol, a chynyddu gwydnwch cymunedol trwy ymateb integredig i adroddiadau Archwilio Cymru.

(3) NODI'R cynnydd a wnaed mewn ymateb i'r argymhellion yn adroddiad Archwilio Cymru 'Amser i Newid – Tlodi yng Nghymru' fel y nodir yn Atodiad A i'r adroddiad.

(4) BOD yr ymateb i'r argymhellion yn adroddiad Archwilio Cymru 'Cyfle a Gollwyd – Mentrau Cymdeithasol' fel y nodir yn Atodiad B i'r adroddiad, yn cael ei gymeradwyo.

(5) CYMERADWYO'R ymateb i'r argymhellion yn adroddiad Archwilio Cymru 'Gyda'n Gilydd Fe Allwn – Gwydnwch Cymunedol a Hunanddibyniaeth' fel y nodir yn Atodiad C i'r adroddiad.

(6) BOD y cynnig i gynnwys gwaith i ddatblygu'r uchod ar y cyd â Chytundeb Sector Gwirfoddol newydd gyda Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg, adolygiad o gylch gorchwyl Cyd-bwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol a gwaith i ddiwygio'r Siarter Cyngor Tref a Chymuned i'r rhaglen waith a amlinellir yn yr adroddiad hwn, gan hefyd gydnabod bod gan y Cytundeb, y Pwyllgor a'r Siarter ffocws ehangach na thlodi a chostau byw, yn cael eu nodi.

(7) BOD y defnydd o'r gronfa costau byw i gefnogi'r rhai mewn angen yn cael ei nodi.

(8) BOD yr adroddiad yn cael ei gyfeirio at y Cabinet (er resymau goruchwylio), y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (i nodi'r ymateb i'r argymhellion rheoleiddio a wnaed), a'r Pwyllgor Cyswllt Cymunedol a Phwyllgor Cyswllt ar y Cyd y Sector Gwirfoddol (i'w sylwadau gael eu cyfeirio at y Cabinet i'w hystyried) a bod diweddariadau ar gynnydd hefyd yn cael eu darparu yn y cyfarfodydd hynny.

(9) BOD yr adroddiad yn cael ei ddosbarthu i'r holl Aelodau Etholedig a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus er gwybodaeth.

<u>Y rhesymau dros yr argymhellion</u>

(1-7) Wedi rhoi sylw i gynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(8) Sicrhau bod pob Pwyllgor perthnasol yn ymwybodol o'r dull gweithredu arfaethedig ac yn cael cyfle i lunio'r rhaglen waith.

(9) Sicrhau bod yr holl Aelodau Etholedig a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ymwybodol o adroddiadau Archwilio Cymru a'r dull gweithredu arfaethedig.

EITEM AGENDA 5. TRACIO ARGYMHELLION SGRIWTINI CHWARTER 1AF AC 2IL 2023/24 AC ATODLEN RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y PWYLLGOR WEDI'I DIWEDDARU 2023/24 (CAC) –

ARGYMHELLIR:

(1) I GYTUNO ar statws y camau gweithredu a restrir yn Atodiadau A i D yr adroddiad.

(2) I GYMERADWYO'R Amserlen Blaenraglen Waith ddiwygiedig ar gyfer 2023/24 sydd ynghlwm yn Atodiad E i'r adroddiad a'i lanlwytho i wefan y Cyngor.

<u>Y rhesymau dros yr argymhellion</u>

(1) Cynnal tracio effeithiol ar argymhellion y Pwyllgor.

(2) Er gwybodaeth i'r cyhoedd.